
Ymchwilio i Ddaearyddiaeth yn y newyddion


Ffocws yr ymchwiliad

Mae'n bwysig dod â materion cyfoes yn y newyddion, boed lleol, cenedlaethol neu fyd-eang i'r dosbarth i wneud y Ddaearyddiaeth yn berthnasol ac yn ddiddorol. Fodd bynnag, fe allai fod yn anodd adeiladu hyn i mewn i'r cynllunio a sicrhau bod 'Daearyddiaeth yn y newyddion' yn datblygu ymagwedd ymchwilio ac yn datblygu'r ystod sgiliau. Mae'r uned hon yn defnyddio **5P** a '***hetiau meddwl***' er mwyn ceisio rhoi fframweithiau ymchwilio y gellir eu cymhwyso ar gyfer ystod eang o destunau 'newyddion'.




Ble mae'n ffitio i mewn

Yr ystod	Mae'r uned hon yn perthyn yn benodol i agwedd '***Daearyddiaeth yn y newyddion***' o'r ystod.
Sgiliau daearyddol	***Sgiliau ymchwilio*** yn dibynnu ar y testun gellir datblygu nifer o sgiliau eraill hefyd.
Fframwaith sgiliau	Mae hwn yn darparu cyfleoedd i ddatblygu ystod o sgiliau ***cyfathrebu*** a ***meddwl***. Mae ffocws penodol ar ***ofyn cwestiynau***, ***cywain gwybodaeth***, ***pwyso a mesur tystiolaeth***, ***gwybodaeth a syniadau*** a ***ffurfio barn a gwneud penderfyniadau***.
Themâu	Gallai'r ymchwiliad hwn fod yn addas ar gyfer themâu ar newid, y byd o'n cwmpas, yr ardal leol ayyb.



Taflen adnodd 1 Daearyddiaeth yn y newyddion




Taflen adnodd 2 Fframwaith weledol ar gyfer 'hetiau meddwl'

Byddwch chi angen


Gan ddibynnu ar y testun neu y pwnc:

- Erthyglau papur newydd
- Lluniau
- Atlasau
- Mapiau
- Gwefannau

Gwybodaeth gefndirol eich hun ar y pwnc/testun. Efallai byddwch chi'n dymuno cael eich set eich hunan o 'hetiau' at ddefnydd y disgyblion a phoster yn yr ystafell yn esbonio'r gwahanol 'hetiau' a'r mathau o feddwl.



Taflen adnodd 3
Map meddwl 'rhosyn cwmpawd' ar gyfer meddwl het werdd




Taflen adnodd 4
Meddwl het las – rhesymu/cyfiawnhau

Beth yw'r 6 het meddwl?

Yn syml – chwe gwahanol ffordd o feddwl am gwestiwn neu pwnc.

Het wen = Gwybodaeth ffeithiol. Beth rydych chi'n ei wybod/gallu ei weld.
Het felen = Beth yw'r pwyntiau da/manteision?
Het ddu = Beth yw'r pwyntiau drwg/anfanteision?
Het goch = Teimladau – beth yw eich ymateb emosiynol?
Het werdd = Meddwl creadigol – gofyn cwestiynau/awgrymu atebion.
Het las = Rhesymu/cyfiawnhau.



Paratoi a gwybodaeth flaenorol


Dylai disgyblion ddeall:

- Gan ddibynnu ar y mater/testun dan sylw, dylai fod gan y disgyblion ddigon o wybodaeth/ddealltwriaeth gefndirol i'w galluogi i gynnal yr 'ymchwiliad'.

Gallant hefyd fod wedi:

- Defnyddio ac ymgyfarwyddo â'r 'hetiau meddwl' fel strategaeth ar gyfer datblygu a threfnu eu meddyliau.
- Casglu rhai deunyddiau eu hunain yn ymwneud â'r testun.

Cychwyn yr ymchwiliad




- Y fformat ar gyfer cychwyn yr ymchwiliad yw'r templed ***5P*** a ddefnyddiwyd eisoes yn y llyfr (***Taflen adnodd 1***). Waeth beth fo'r testun mae hwn yn fframwaith effeithiol i roi mwy o ffocws i ymchwiliad. Gellir gwneud hyn ar wahân fel ymchwiliad bach annibynnol neu fel rhan o ymchwil unigol neu grŵp, neu fe ellir ei ddefnyddio i ysgogi ymchwiliad dyfnach ar y pwnc dan sylw.

Pa fathau o storïau newyddion allech chi ymchwilio?


- Datblygiad lleol (Tai, fferm wynt, ffyrdd newydd, siopau newydd, ayyb)
- Tywydd
- Trychineb naturiol (Llosgfynydd/corwynt)
- Materion amgylcheddol (Torri/plannu coed)
- Digwyddiad chwaraeon/diwylliannol
- Damwain ddiwydiannol (Gorlif olew)

Er mwyn gwneud yr ymchwil



I gynnal ymchwiliad dyfnach i fater arbennig, mae '***hetiau meddwl' De Bono*** yn fframwaith defnyddiol. Defnyddiwch y ***ffrâm weledol*** (***Taflen adnodd 2***) ar gyfer hyn. Llungopïwch y ffrâm ar bapur A3 a rhoi erthygl newyddion neu lun yn ymwneud â'r pwnc yn y canol. Gofynnwch i'r disgyblion mewn grwpiau o 3 i gynrychioli ***hetiau gwyn***, ***melyn*** a ***du*** o 6 'het meddwl' ***De Bono***. Efallai byddwch chi'n dymuno esbonio tipyn bach mwy am 'hetiau meddwl' De Bono. (***Gweler tudalen 80***). Gallan nhw naill ai wneud pob adran fel grŵp neu gellir rhoi cyfrifoldeb i unigolion am yr het wen, felen a du. Er mwyn rhannu a chasglu syniadau gallwch chi wedyn wneud hyn fel ***gweithgaredd jig-so*** a gofyn i'r holl ddisgyblion het wen, felen a du i ddod at ei gilydd i rannu syniadau/canfyddiadau cyn dychwelyd at eu grwpiau ac adrodd yn ôl. Gall pob un gyfrannu syniadau i'r adran ***het goch***.

Dadansoddi'r ymchwiliad



Er mwyn ymchwilio yn ddyfnach i'r mater, arweiniwch y disgyblion i wneud map meddwl o'u syniadau gan ddefnyddio'r ***map meddwl 'rhosyn cwmpawd'*** (***Taflen adnodd 3***). Mae'r 'rhosyn cwmpawd' yn rhannu pynciau i 4 agwedd:

N = Naturiol (Beth yw'r effeithiau ar yr amgylchedd naturiol?)
E = Economaidd (Beth fydd y gost?)
C = Cymdeithasol (Pa effaith gaiff hyn ar y bobl?)
P = Pwy sy'n penderfynu? (Pwy yw'r bobl all ddylanwadu ar yr hyn sydd yn digwydd?)

Dyma'r '***het meddwl werdd***' ac mae'n gofyn i'r disgyblion feddwl yn fwy creadigol wrth gynhyrchu eu syniadau. Bydd sut yn union y byddwch chi'n ei defnyddio yn dibynnu ar y testun/pwnc. Er enghraifft gall rhai o'r syniadau am ffordd newydd fod yn:

Naturiol

- Colli gwyrddni
- Torri coed i lawr
- Colli cynefinoedd
- Mwy o lygredd ar ffordd newydd (Llai ar yr hen un)

Cymdeithasol

- Perygl wrth groesi'r ffordd
- Perchnogion siopau lleol yn colli cwsmeriaid
- Traffig yn symud yn gyflymach felly gall pobl deithio'n gyflymach


Economaidd

- Cost adeiladu ffyrdd
- Swyddi ar gyfer adeiladwyr
- Llai o arian ar gyfer ysgolion ayyb


Pwy sydd yn penderfynu?

- Cynllunwyr
- Cynghorwyr
- Cyhoedd

Gellir defnyddio'r un fformat ar gyfer bwrw syniadau er mwyn datrys problemau.




Myfyrio ar yr ymchwiliad




Mae'r het olaf, ***meddwl het las*** (***Taflen adnodd 3***) yn ymwneud â rhesymu, cyfiawnhau a myfyrio ar eu meddyliau. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r disgyblion ystyried yr holl wybodaeth ac i benderfynu ydyn nhw'n credu bod y newidiadau'n dda ai peidio ac i esbonio'u rhesymu.

Pa wybodaeth arall fydd angen ei chanfod?



Camau nesaf

Bydd hyn yn dibynnu i raddau ar natur y newyddion sydd yn destun yr ymchwiliad. Os yw'n rhan o destun dosbarth gallai'r cam nesaf olygu fod y disgyblion yn cynnal ymchwil mwy annibynnol gan ddefnyddio fframweithiau tebyg er mwyn eu helpu i lywio'r cynllunio a'r meddwl.



Taflen adnodd 1 **Daearyddiaeth yn y newyddion**

Beth yw'r stori?

Pryd ddigwyddodd hi?

Pa le y digwyddodd hi?

Pam y digwyddodd hi?

Rhowch eich llun/erthygl yma/teitl pwnc

Pwy sydd wedi cael eu heffeithio?

Sut ydw i (Ac eraill) yn teimlo?

Taflen adnodd 2 **Ffrâm weledol ar gyfer hetiau meddwl**

Het wen
Beth ydych chi'n ei wybod? Beth allwch chi ei weld?
Beth yw'r ffeithiau?

Het felen
Beth yw pwyntiau da/manteision
y newid hwn?

Het ddu
Pa anfanteision/problemau
fydd i'r newid hwn?

Rhowch eich llun/erthygl yma

Het goch
Sut ydych chi'n teimlo am y newid hwn?
Pam ydych chi'n teimlo fel hyn?

Taflen adnodd 3 **Map meddwl 'rhosyn cwmpawd' ar gyfer 'meddwl het werdd'**

